# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

**22 Mehefin 2017, 12pm**

**Ystafell Gynadledda 2, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Nodyn o'r cyfarfod ynghylch: sgamiau a phobl hŷn**

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| Mike Hedges AC – Cadeirydd | Emma Sands, RNIB Cymru |
| Mark Isherwood AC | Andrew Tait, Deafblind Cymru |
| Ian Thomas, Age Cymru | David Teague, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Michael Phillips, Age Cymru | Adrian Thomas, Banc Barclays |
| Rachel Lewis, Age Cymru | Simon Wilkinson, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Amal Beyrouty, Women Connect First | Iwan Williams, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Vera Brinkworth, Gofal a Thrwsio | **Ymddiheuriadau** |
| Nancy Davies, Cadeirydd y Fforwm Pensiynwyr Cymru | Simon Thomas AC |
| Ray Foulston, Safonau Masnach | Neil Hamilton AC |
| Irene Gannon, Cadeirydd Senedd Pobl Hŷn Cymru Pobl Hŷn | Tony Neate, Get Safe Online |
| Tim Hodgson, Cyngor Sir Casnewydd | Steve Crabb, Nwy Prydain |
| Dai Jones, Safonau Masnach | Ella Rabioti, Crimestoppers |
| Julie Lipscomb, Safonau Masnach | Leanne Husselbee, Heddlu Gwent |
| Karyn Morris, y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol | Delyth James, Cyngor ar Bopeth |
| Phyllis Preece, y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol | |

Croesawodd Mike Hedges AC bawb i'r cyfarfod.

Rhoddodd Ian Thomas, Age Cymru, gyflwyniad am waith Partneriaeth Cymru yn erbyn Sgamiau a ffocws gwaith yn y dyfodol. (Sleidiau wedi'u hatodi).

Dechreuodd Mike Hedges y drafodaeth drwy ddweud bod angen mwy o ardaloedd dim galw diwahoddiad yng Nghymru. Nid yw rhai o'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu bellach yn cefnogi'r ardaloedd, ond mae Heddlu De Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Age Cymru, i gyflwyno'r ymgyrch Eich Cartref, Eich Hawl i Ddweud Na.

**Cam gweithredu: Mike Hedges i ysgrifennu at yr holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru i ofyn am eu safbwynt ynghylch ardaloedd dim galw diwahoddiad ac i ofyn am gyflwyno'r ymgyrch Eich Cartref, Eich Hawl i Ddweud Na yn genedlaethol.**

Cytunodd pawb fod angen i fanciau fod yn fwy rhagweithiol o ran mynd i'r afael â sgamiau ac y dylent fod yn aelodau gweithredol o WASP. Cymeradwywyd Banc

Barclays am ei waith yn y maes hwn. Dylai'r sector bancio weithredu mewn modd cyson. Mewn ymateb, dywedodd Adrian Thomas, Banc Barclays, fod cynllun newydd o'r enw Protocol Bancio wrthi'n cael ei ddatblygu. Nod y cynllun yw sicrhau bod yr holl staff rheng flaen sy'n gweithio mewn banciau a swyddfeydd post yn edrych am arwyddion bod cwsmer yn cael ei sgamio

**Cam gweithredu**: **WASP i gysylltu â banciau mawr yng Nghymru i ofyn beth y maen nhw'n ei wneud i fynd i'r afael â sgamiau ac a ydynt yn rhan o'r Protocol Bancio newydd.**

Croesawodd Mark Isherwood AC y Protocol Bancio a dywedodd y gallai banciau wneud mwy i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin fel unigolion. Awgrymodd y dylai'r grŵp trawsbleidiol gynnal sesiynau allgymorth mewn rhannau eraill o Gymru ac yn defnyddio grwpiau gwirfoddol cymunedol a grwpiau lleol i ledaenu gwybodaeth am sgamiau. Hefyd, dylai'r grŵp ystyried gwahodd Gweinidog neu gynrychiolydd y Post Brenhinol i ddod i gyfarfod.

Mae angen mwy o ymchwil ynghylch faint o sgamiau sydd yng Nghymru ac a yw agweddau rhagfarnllyd yn erbyn pobl hŷn yn golygu nad yw troseddwyr yn cael eu herlyn. Mae pobl yn aml yn teimlo gormod o embaras i adrodd am sgamiau. Dylai fod mwy o wasanaethau allgymorth sy'n codi ymwybyddiaeth am sgamiau ac yn helpu pobl hŷn i'w gwrthsefyll yn well. Mae angen hyn yn arbennig ymhlith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lle mae diffyg ymwybyddiaeth am sut i osgoi sgamiau.

Mae cysylltiad rhwng sgamiau ac unigrwydd. Mae'n bosib na fydd pobl hŷn unig yn ymwybodol eu bod yn rhoi gormod o wybodaeth i droseddwyr. Rhaid cydgysylltu agendâu polisi a'u cysylltu â'r canlyniadau yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd cyfle hefyd i ddylanwadu ar gyfnod nesaf y Strategaeth Pobl Hŷn.

Dywedodd David Teague o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y gall pobl gysylltu â'i swyddfa gyda chwynion am alwadau niwsans. Mae Senedd yr Alban yn cynnal uwchgynhadledd galwadau niwsans ac awgrymwyd y gellid cynnal rhywbeth tebyg yng Nghymru.

**Cam gweithredu: y Grŵp Trawsbleidiol i ofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi uwchgynhadledd galwadau niwsans.**